

Canllawiau S4C ar Les Cyfranwyr

Ebrill 2021

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'n hanfodol bod cyfranwyr sy'n cymryd rhan yn Rhaglenni S4C (gan gynnwys cynnwys digidol a ffurf fer) ("**y Cyfranwyr**") yn derbyn gofal digonol gan y cwmni cynhyrchu ("**y Cynhyrchydd**"). Dylid cymryd yr holl gamau priodol i ddiogelu lles Cyfranwyr.
- 1.2 Canllawiau yn unig ydy'r rhain; nid ydynt yn cynnwys rhestr cynhwysfawr o'r materion y disgwylir i'r Cynhyrchydd eu hystyried wrth ddelio â lles cyfranwyr. Nodir y polisiau a'r gweithdrefnau y mae S4C yn disgwyl i'r Cynhyrchydd eu cael fel isafswm.
- 1.3 Os bydd yn ofynnol gan S4C ar gynyrchiadau penodol, bydd y Cynhyrchydd yn creu protocol manwl sy'n ymdrin â lles cyfranwyr ("**y Protocol Lles Cyfranwyr**") sy'n nodi'r mesurau sydd i'w dilyn gan y Cynhyrchydd yn ystod camau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu Rhaglen S4C.
- 1.4 Dylai holl staff perthnasol y Cynhyrchydd fod yn gyfarwydd â Pholisi Amddiffyn Plant S4C a Pholisi Pobl Agored i Niwed S4C a dylid ystyried y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r polisiau hynny.
- 1.5 Dylai'r Cynhyrchydd a'i holl staff perthnasol hefyd sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Darlledu Ofcom a chanllawiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni ("**y Cod**") ac yn benodol gofynion rheolau 1.28, 1.29, 1.8, 1.9, 2.3, 7 ac 8.

2. Cyn-Gynhyrchu

- 2.1 Bydd y Cynhyrchydd yn cymryd pob cam priodol i sicrhau lles emosiynol a chorfforol ac urddas Cyfranwyr drwy gydol pob agwedd o'r broses gynhyrchu ar gyfer Rhaglen S4C. Yn ystod cyn-gynhyrchu, bydd y Cynhyrchydd yn trafod camau priodol o'r fath gyda'r Comisiynydd perthnasol a bydd yn gweithredu unrhyw argymhellion ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan Gomisiynydd S4C yn ddi-oed fel sy'n ofynnol o bryd i'w gilydd.
- 2.2 Bydd holl aelodau perthnasol tîm cynhyrchu'r Cynhyrchydd yn cael eu hatgoffa o ofynion rheolau perthnasol y Cod yn ogystal â chanllawiau S4C ei hun.
- 2.3 Cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gynnwys unigolyn yn Rhaglen S4C, dylid ystyried a dogfennu'r canlynol i'r graddau sy'n berthnasol ac yn briodol o ystyried natur Rhaglen S4C: eu haddasrwydd o ran eu hiechyd (cyhyd ag sy'n berthnasol), eu rhwydweithiau cymorth, unrhyw beth o'u hanes neu amgylchiadau personol a all feddwl eu bod yn fregus ac, wrth gwrs, eu gallu i ddeall yn llawn yr hyn sy'n gysylltiedig a bod yn rhan o Raglen S4C, gan gynnwys canlyniadau cadarnhaol a negyddol.
- 2.4 Os yw'r Cyfranwr o dan un ar bymtheg oed, dylid penodi swyddog amddiffyn plant dynodedig sydd â'r cymhwyster priodol i sicrhau lles y Cyfranwr drwy gydol y broses o gynhyrchu Rhaglen S4C.

Caniatâd Gwybodus

- 2.5 Mae'r Cod yn nodi ei bod yn ofynnol i drin Cyfranwyr yn deg a rhaid i'r Cynhyrchydd gymryd pob cam perthnasol i sicrhau bod y Cyfrannwr wedi rhoi ei ganiatâd gwybodus ysgrifenedig i ymddangos yn Rhaglen S4C. Felly, wrth wahodd y Cyfrannwr i wneud cyfraniad i Raglen S4C (ac eithrio pan fo'r pwnc neu'r rhan yn ddibwys) dylent fel arfer, ar adeg briodol cyn i'r cynhyrchu ddechrau:
- cael gwybod am natur, pwrpas ac ystyr Rhaglen S4C a derbyn esboniad clir pam y gofynnwyd iddynt gyfrannu a phryd (os yw'n hysbys) a ble mae'n debygol o gael ei darlledu;
 - cael gwybod pa fath o gyfraniad y disgwylir iddynt ei wneud, er enghraifft cyfraniad byw, cyfraniad sydd wedi'i recordio ymlaen llaw, cyfweiliad, trafodaeth, wedi ei olygu a'i peidio, ac ati;
 - cael gwybod am y meysydd cwestiynu, a, lle bynnag y bo modd, natur cyfraniadau tebygol eraill;
 - cael gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol posibl i Raglen S4C wrth iddi ddatblygu a allai effeithio'n rhesymol ar eu caniatâd gwreiddiol i gymryd rhan, ac a allai achosi annhegwch materol;
 - ar adeg briodol, cael gwybod am natur eu hawliau a'u rhwymedigaethau cytundebol a rhai S4C a'r Cynhyrchwyr mewn perthynas â'u cyfraniad;
 - cael gwybod a fydd unrhyw ddata personol sy'n berchen i'r Cyfrannwr, ac yn benodol unrhyw ddata categori arbennig, yn cael ei brosesu wrth gynhyrchu Rhaglen S4C; a/neu
 - cael gwybod am unrhyw ganlyniadau negyddol allai ddeillio o'u cyfranogiad yn Rhaglen S4C ac a allai effeithio ar eu lles (i'r graddau y gellir rhagweld y rhain yn rhesymol ar y pryd) ac unrhyw gamau y mae'r Cynhyrchydd a/neu S4C yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r rhain.
- 2.6 Rhaid ystyried yn ofalus a all y Cyfrannwr roi caniatâd gwybodus. Dim ond os rhoddir yr holl wybodaeth berthnasol iddynt ac os oes ganddynt y capasiti i ystyried a phwyso a mesur y wybodaeth berthnasol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau y gall unigolyn wneud penderfyniad. Lle nad yw Cyfranwyr un ar bymtheg oed a throsodd mewn sefyllfa i roi eu caniatâd gwybodus i gymryd rhan yn Rhaglen S4C, dylai person o ddeunaw oed neu drosodd sydd â'r prif gyfrifoldeb am eu gofal ("**y Gwarcheidwad Cyfreithiol**") ei roi ar eu rhan fel arfer. Ni ddylid gofyn i Gyfranwyr nad ydynt mewn sefyllfa i roi caniatâd gwybodus am farn ar faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn iawn heb ganiatâd o'r fath.
- 2.7 Os yw Cyfrannwr o dan un ar bymtheg oed, dylid cael caniatâd gwybodus ysgrifenedig i gymryd rhan yn Rhaglen S4C fel arfer gan riant neu Warcheidwad Cyfreithiol. Dylai'r riant neu Warcheidwad Cyfreithiol fod yn gwbl ymwybodol o natur Rhaglen S4C ac ni ddylid gofyn i gyfranwyr o dan 16 oed am farn ar faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn iawn heb ganiatâd o'r fath.
- 2.8 Os credir yn rhesymol y gallai'r Cyfrannwr fod yn berson agored i niwed, dylai'r Cynhyrchydd wirio a yw Gwarcheidwad Cyfreithiol (gan gynnwys atwrnai neu ddirprwy) wedi cael ei benodi'n ffurfiol i wneud penderfyniadau ar ran y Cyfrannwr.

Risg o Niwed Sylweddol

- 2.9 Yn ogystal â chael caniatâd gwybodus Cyfrannwr dylai'r Cynhyrchydd gymryd gofal priodol dros les Cyfrannwr a allai fod mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i gymryd rhan yn Rhaglen S4C. Gellir ystyried bod Cyfrannwr mewn perygl o niwed

sylweddol o ganlyniad i gymryd rhan yn Rhaglen S4C am resymau gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- os ydynt yn cael eu hystyried yn berson bregus;
- os nad ydynt wedi arfer bod yn llygad y cyhoedd;
- os oes yna ffilmio mewn amgylchedd artiffisial neu adeiledig ar gyfer Rhaglen S4C;
- os ydy Rhaglen S4C yn debygol o ddenu lefel uchel o ddiddordeb yn y wasg, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol;
- os ydy elfennau golygyddol allweddol Rhaglen S4C yn cynnwys gwrthdaro posibl neu sefyllfaoedd emosiynol heriol; a/neu
- os ydy Rhaglen S4C yn ei gwneud yn ofynnol iddynt drafod, ddatgelu neu ymgysylltu ag agweddau sensitif, trawiadol neu breifat ar eu bywydau.

2.10 Dylai'r Cynhyrchydd gynnal asesiad risg i nodi unrhyw risg bosibl o niwed sylweddol (gan gynnwys yr effaith ar les emosiynol ac iechyd meddwl) i Gyfranwyr o ganlyniad i gymryd rhan yn Rhaglen S4C, oni bai bod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny er budd y cyhoedd. Dylid cwblhau gwiriadau cefndir priodol ar amgylchiadau cymdeithasol, teuluol, iechyd ac addysgol Cyfranwyr. Bydd lefel y gofal sy'n ddyledus i'r Gyfranwyr yn gymesur â lefel y risg sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad yn Rhaglen S4C. Lle nodwyd risgiau i Gyfranwyr mewn perthynas â'u cyfranogiad yn Rhaglen S4C, dylai'r Cynhyrchydd roi gwybodaeth berthnasol i'r Gyfranwyr am y risgiau hynny ac unrhyw gamau y bwriedir eu cymryd i'w lliniaru.

2.11 Dylid hysbysu Cyfranwyr yn gynnar y byddant yn cael cyfle i weld eu cyfraniad i Rhaglen S4C cyn ei ddarlledu a chyflwyno sylwadau i'r Cynhyrchydd os oes ganddynt unrhyw bryderon.

2.12 Wrth ddelio â materion cymhleth neu sensitif, cyn i'r cynhyrchu ddechrau, dylai'r Cynhyrchydd ofyn am ddatgeliad cyfrinachol gan y Cyfranwr am euogfarnau blaenorol, eu hiechyd meddygol a seicolegol a'u hymwneud ag asiantaethau allanol (fel gwasanaethau cymdeithasol, tîm iechyd meddwl cymunedol, neu unrhyw wasanaeth eiriolaeth). Os yn berthnasol, dylid annog a chefnogi Cyfranwyr i roi gwybod i unrhyw asiantaethau allanol o'r fath am eu cyfranogiad yn Rhaglen S4C.

Asesiadau Seicolegol

2.13 Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i briodoldeb ei gwneud yn ofynnol i Gyfranwyr y gallai cyfranogiad yn Rhaglen S4C effeithio'n andwyol ar eu hiechyd meddwl neu eu lles, i gael asesiad seicolegol cyn cael eu derbyn fel Cyfranwr.

2.14 Yn dibynnu ar natur Rhaglen S4C a lle mae'r Cyfranwr o dan 16 oed, efallai y byddai'n fuddiol gofyn am gyngor gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol fel cwnselydd neu seicolegydd plant nad oes ganddo unrhyw ddiddordeb personol mewn cyfranogiad y Cyfranwr yn Rhaglen S4C.

2.15 Os penderfynir, ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd S4C, ei bod yn ofynnol i Gyfranwr gael asesiad seicolegol, bydd asesiad o'r fath yn cael ei drefnu gan y Cynhyrchydd. Dim ond ar ôl i'r seicolegydd penodedig (neu arbenigwr arall â chymwysterau priodol) ("**y Seicolegydd**") gadarnhau, ym marn broffesiynol y Seicolegydd, ei bod yn briodol i'r Cyfranwr gymryd rhan yn Rhaglen S4C ac na fyddai'r Cyfranwr yn debygol o gael ei effeithio'n andwyol o ganlyniad i gymryd rhan yn Rhaglen S4C a/neu ddarlledu Rhaglen S4C, dylid ffilmio'r Cyfranwr perthnasol.

- 2.16 Dylid cynnal asesiad seicolegol mewn da bryd cyn i'r ffilmio ddechrau fel bod cyfle i'r Seicolegydd ddarparu adroddiad ac i'r Cyfrannwr fyfyrto ar y sgwrs cyn penderfynu cael ei ffilmio. Os yw'r Cyfrannwr yn gwrthod derbyn yr asesiad seicolegol, yna ni fydd y Cyfrannwr yn gallu cymryd rhan yn Rhaglen S4C.

3. Cynhyrchu

- 3.1 Lle y bo'n berthnasol, bydd yr egwyddorion a ddisgrifir yn ystod y cam cyn-gynhyrchu yn parhau i fod yn bwysig yn ystod y cam cynhyrchu.

Caniatâd Gwybodus

- 3.2 Dylai'r Cynhyrchydd fod yn ymwybodol bod derbyn caniatâd gwybodus y Cyfrannwr yn broses barhaus a dylai roi gwybod i'r Cyfrannwr am unrhyw newidiadau sylweddol i Raglen S4C wrth iddi ddatblygu a allai effeithio'n rhesymol ar eu caniatâd gwreiddiol i gymryd rhan ac a allai achosi annhegwch materol. Yn benodol, lle mae ffilmio plant a/neu oedolion sy'n agored i niwed yn digwydd, dylid gwneud yn glir i Gyfranwyr o'r fath (fel y bo'n briodol o ystyried eu hoedran a/neu lefel eu dealltwriaeth) a'u rhiant neu Warcheidwad Cyfreithiol nad oes rhaid iddynt gytuno i gael eu ffilmio os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac y gellid atal ffilmio ar unrhyw adeg.

Cadw Cymorth Arbenigol

- 3.3 Dylai'r Cynhyrchydd ystyried a yw'n briodol cadw gwasanaethau'r Seicolegydd a benodir yn ystod y cam cyn-gynhyrchu (neu arbenigwr arall â chymwysterau priodol) drwy gydol y broses gynhyrchu i roi cyngor ar unrhyw faterion lles penodol, yn enwedig os ydynt yn cynnwys plant neu oedolion sy'n agored i niwed, a allai godi yn ystod y broses gynhyrchu, ac i roi cymorth priodol i Gyfranwyr lle bo angen.
- 3.4 Dylai'r Cynhyrchydd sicrhau bod proses ar waith sy'n galluogi'r Cyfrannwr i fynd yn uniongyrchol at y Seicolegydd am gymorth heb orfod gofyn i'r Cynhyrchydd a'i staff.

Preifatrwydd

- 3.5 Os oes gan Gyfrannwr bryderon ynghylch diogelu ei hunaniaeth, ac os ydy'r Cynhyrchydd yn cytuno i gymryd camau i ddiogelu ei hunaniaeth, ni ddylid tybio y bydd Cyfrannwr o reidrwydd yn gwerthfawrogi'r gwahaniaeth mawr rhwng peidio â'u hadnabod yn Rhaglen S4C a sicrhau nad oes modd eu hadnabod. Dylai'r Cynhyrchydd farnu sensitifrwydd yr amgylchiadau penodol wrth ystyried pa lefel o ddiogelwch sy'n briodol i ddiogelu hunaniaeth Cyfrannwr.

Cofnodion

- 3.6 Dylai'r Cynhyrchydd wneud a chadw cofnodion, nodiadau a wnaed ar y pryd a/neu unrhyw ddogfennau eraill a fydd yn helpu i ddangos pa wybodaeth a chymorth a gynnigwyd ac a roddwyd i Gyfrannwr wrth gynhyrchu.

4. Ôl-Gynhyrchu

- 4.1 Lle y bo'n berthnasol, bydd yr egwyddorion a ddisgrifir yn ystod y camau cyn-gynhyrchu a chynhyrchu yn parhau i fod yn bwysig yn ystod y cam ôl-gynhyrchu.

Delio ag Amlygiad

- 4.2 Os yw'n briodol, bydd y Cynhyrchydd yn rhoi canllawiau manwl penodol i Gyfranwyr ar sut i ddelio â'r cyfryngau a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar ôl darllediad Rhaglen S4C. Dylai canllawiau o'r fath gynnwys cyngor ar gryfhau gosodiadau preifatrwydd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyfrannwr ei hun a sut i ddelio â rhyngweithiadau negyddol a dderbynnir ar wefannau cyfryngau cymdeithasol.
- 4.3 Dylid cynghori rhieni a/neu Warcheidwaid Cyfreithiol bod sylw negyddol fel bwlio yn ganlyniadau posibl o ymddangos mewn unrhyw raglen deledu, hyd yn oed os mai dim ond am gyfnod byr, yn ogystal â sylwadau negyddol yn y cyfryngau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylid cynghori rhieni a/neu Warcheidwaid Cyfreithiol i roi gwybod i'w hysgol am gyfraniad y Cyfrannwr yn Rhaglen S4C ynghyd â'r dyddiadau trosglwyddo, er mwyn sicrhau y gellid darparu cymorth os bydd angen. Dylid hysbysu rhieni a/neu Warcheidwaid Cyfreithiol, os oes gan yr ysgol unrhyw bryderon neu os ydynt am gael rhagor o wybodaeth, y dylent gysylltu â'r Cynhyrchydd, a bod manylion cyswllt y Cynhyrchydd ar gael.

Cyfle i Weld

- 4.4 Os yw'n briodol, dylid gwahodd Cyfranwyr ynghyd â'u rhieni neu Warcheidwaid Cyfreithiol (fel y bo'n briodol) i weld eu cyfraniad i Raglen S4C cyn ei ddarlledu ac i gyflwyno sylwadau i'r Cynhyrchydd os oes ganddynt unrhyw bryderon.
- 4.5 Dylai'r Cynhyrchydd sicrhau bod gwybodaeth glir wedi'i rhoi ymlaen llaw ynghylch a fydd y Cyfrannwr yn gallu gweithredu unrhyw newidiadau i Raglen S4C fel rhan o'r cyfle rhagolwg. Bydd Cyfranwyr yn cael cyfle i roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol cynnwys Rhaglen S4C ond nid ar faterion golygyddol.
- 4.6 Bydd y Cynhyrchydd yn trefnu hyn mewn da bryd fel y gellir gwneud newidiadau i ffurf orffenedig Rhaglen S4C, os yw S4C yn barnu bod angen gwneud hynny. Bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C ar unwaith os bydd unrhyw un o'r Cyfranwyr yn anhapus gyda Rhaglen S4C. Bydd S4C yn ystyried sylwadau perthnasol y Cyfrannwr a'r Cynhyrchydd ar y materion uchod, ond mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod mai S4C sydd â'r rheolaeth olygyddol derfynol dros Raglen S4C.

Ôl-ofal

- 4.7 Lle bo'n briodol, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod y Seicolegydd (neu arbenigwr arall â chymwysterau priodol) ar gael am gyfnod rhesymol ar ôl trosglwyddo Rhaglen S4C er mwyn rhoi cymorth priodol i'r Cyfranwyr. Bydd y Cynhyrchydd yn gofyn am gyngor yr arbenigwr penodedig am y cyfnod y dylai'r cymorth cwnsela fod ar gael ar ôl darllediad Rhaglen S4C a bydd yn rhoi'r cyngor hwn yn ysgrifenedig i S4C. Bydd y Cynhyrchydd yn cadarnhau enw a manylion cyswllt yr arbenigwr penodedig y gall y Cyfrannwr gysylltu ag ef a'r gwasanaeth y gellir ei ddisgwyl gan yr arbenigwr penodedig.
- 4.8 Bydd y Cynhyrchydd yn darparu dogfen i S4C yn amlinellu'r cymorth cwnsela sydd ar gael i'r Cyfranwyr wrth ffilmio, yn ystod y cyfnod darlledu ac ar ôl darlledu Rhaglen S4C o fewn 30 diwrnod i ddyddiad darllediad cyntaf Rhaglen S4C.

5. Cyffredinol

- 5.1 Dylid nodi nad yw'r egwyddorion yn y canllawiau hyn yn hollgynhwysol ac y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gyd-destun Rhaglen S4C gan y Cynhyrchydd a pha bolisiau a phrotocolau ychwanegol sydd angen eu gweithredu o ganlyniad.
- 5.2 Nid yw'r canllawiau hyn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol. Dylai'r Cynhyrchydd ofyn am ei gyngor cyfreithiol annibynnol ei hun os oes ganddo unrhyw broblemau neu gwestiynau sy'n ymwneud â lles y Cyfranwyr.